Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

# Proffil Swydd/Job Profile

Teitl y Swydd - Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
Post Title: Head of Place and Sustainability

| Prif Ddiben y Swydd |
|---|
| • Cefnogi a chynghori'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac Aelodau Etholedig o ran y gwaith cyffredinol o reoli'r Cyngor yn strategol.<br><br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni Datblygu Cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin, rhoi cyngor a chymorth i Aelodau Etholedig a gweithio'n gorfforaethol gyda chydweithwyr i gyflawni blaenoriaethau adfywio'r Cyngor.<br><br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2021), gan sicrhau bod ceisiadau cynllunio sy'n cefnogi swyddi a datblygu economaidd yn cael eu prosesu'n effeithlon, cynnydd yn y cyflenwad tai ac adferiad canol trefi.<br><br>• Arwain ar ddull y Cyngor o hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol yn unol â chyfrifoldebau ehangach y Cyngor ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,<br><br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, gan gynnwys Amcanion Llesiant y Cyngor a sicrhau bod y camau a gymerir yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.<br><br>• Sicrhau diwylliant o reoli perfformiad, gwella gwasanaethau'n barhaus, gwerthuso ac adolygu perfformiad, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.<br><br>• Cyfrannu at Dîm Rheoli Adrannol yr Amgylchedd trwy gymryd yr awenau ar faterion sydd wedi'u dyrannu fel rhan o bortffolio corfforaethol y swydd.<br><br>• Arwain, rheoli, datblygu a gweithredu strategaethau perthnasol a fydd yn darparu Gwasanaeth Cymunedau Cynaliadwy cynhwysfawr, effeithiol a disgybledig yn unol â nodau ac amcanion y Cyngor. |

| Y Prif Gyfrifoldebau |
| --- |
| 1. Darparu arweinyddiaeth glir a gweladwy a chyfeiriad strategol sy'n ysbrydoli gweithio mewn tîm ac yn sicrhau lefelau uchel o berfformiad ac ymrwymiad ymhlith rheolwyr a gweithwyr i ddarparu gwasanaethau eithriadol.<br><br>2. Bod yn ben-ymgynghorydd i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd a'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y prif faterion a strategaethau sy'n berthnasol i amrywiol bortffolios gwasanaeth y gyfarwyddiaeth, gan sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol iddynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaethau.<br><br>3. Cefnogi'r Pennaeth Datblygu Economaidd ac Eiddo i ymgysylltu â darpar ddatblygwyr a buddsoddwyr mewn modd rhagweithiol - hyrwyddo, annog a hwyluso cyfleoedd datblygu ledled y Sir.<br><br>4. Gweithio gyda chydweithwyr, rhanddeiliaid allanol a phartneriaid i sicrhau bod lleihau carbon ac amcanion cynaliadwyedd pellach yn rhan annatod o wasanaethau'r Cyngor ac yn cefnogi amcan Carbon Sero-net partneriaid a'r Cyngor a chynigion adfer economaidd.<br><br>5. Bod yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau a fframweithiau cyflawni/cynlluniau gweithredu ar reoli ynni a defnydd tir, er mwyn bodloni dyheadau carbon niwtral y Cyngor a datblygu cynaliadwy.<br><br>6. Datblygu diwylliant sy'n annog gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus gan gynnwys partneriaid y Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn ogystal â'r rheiny yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o bob cyfle a hynny er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'r Cyngor ac i drigolion Sir Gaerfyrddin a'r rhanbarth.<br><br>7. Hybu a meithrin diwylliant trefniadaethol y mae heriau adeiladol, arloesi ac atebion creadigol yn rhan arferol ohono, gan hyrwyddo enw da'r Cyngor fel un o'r awdurdodau lleol sy'n cyrraedd y brig ac sy'n gyflogwr da.<br><br>8. Arwain y gwaith o arfarnu opsiynau, datblygu dichonoldeb a gweithredu prosiectau gan gynnwys caffael contractwyr ac ymgynghorwyr, rheoli timau prosiect, cael yr holl gymeradwyaethau angenrheidiol, rheoli risg, cynllunio busnes ariannol, cyfathrebu, ac ymgysylltu. Ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am arwain a phennu, monitro a rheoli cyllidebau ac adnoddau ar gyfer elfennau gwasanaeth perthnasol y Gyfarwyddiaeth.<br><br>9. Sicrhau bod gwaith yr is-adran yn cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol sy'n benodol i'r gwasanaeth a dyletswyddau corfforaethol ehangach eraill ar y Cyngor. Yn ogystal, sicrhau bod gan swyddogion gymwysterau addas a chymwys mewn meysydd perthnasol a chefnogi datblygiad parhaus i weithio tuag at wasanaeth gwydn a chynaliadwy.<br><br>10. Bod yn gyfrifol am reolaeth strategol a gweithredol swyddogaethau cynllunio statudol y Cyngor fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gan gynnwys y cynllun datblygu strategol rhanbarthol, y cynllun datblygu lleol, mwynau, rheoli datblygu, cadwraeth, bioamrywiaeth, rhwymedigaethau/ystyriaethau'r amgylchedd naturiol a rheoli adeiladu. |

| |
|---|
| 11. Bod yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal ac adolygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor a fydd yn sicrhau bod holl bolisïau'r Cyngor o ran cynllunio defnydd tir, cynllunio trafnidiaeth, datblygu economaidd, gwella iechyd a'i bolisïau cymdeithasol a chymunedol yn cael eu hintegreiddio o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy.<br><br>12. Cefnogi proses llunio polisi y Cyngor ar draws y sbectrwm corfforaethol, ac yn benodol ynghylch yr holl faterion cynllunio, trwyddedu a gorfodi, gan sicrhau bod y rhain, lle bo'n briodol, yn cael eu trosi'n gynlluniau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, cenedlaethau'r dyfodol a llesiant.<br><br>13. Bod yn gyfrifol am reolaeth strategol a gweithredol dyletswyddau statudol a dewisol y Cyngor o ran rheoli/lliniaru llifogydd, a'r ymateb strategol fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA). Mae hyn yn cynnwys strategaethau, cynlluniau ac asesiadau risg llifogydd; rheoli cronfeydd dŵr; erydu arfordirol; a gwasanaethau rheoleiddio, cymeradwyo a darparu cyngor ar reoli draenio cynaliadwy. |
| **Yn gyfrifol am staff/offer** |
| Bydd yr is-adran yn cyflogi tua 120 o aelodau staff gyda chyllideb net oddeutu £8m. |
| **Yn atebol i** |
| Cyfarwyddwr Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd. |

## Meini Prawf Hanfodol

### Cymwysterau, Hyfforddiant Galwedigaethol ac Aelodaethau Proffesiynol

Yn meddu ar radd (neu gymhwyster cyfwerth) mewn disgyblaeth broffesiynol berthnasol megis cynllunio, rheoli amgylcheddol, cynaliadwyedd, adfywio, daearyddiaeth neu bolisi cyhoeddus.

Cymhwyster rheoli perthnasol neu dystiolaeth bendant o ddatblygiad proffesiynol parhaus a / neu brofiad o uwch-reoli.

### Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad Craidd

Cliciwch yma i weld y fframwaith cyfan

**Un Tîm:**

**Addasu i newid** - Gallwch addasu i newidiadau yn y gwaith neu'r amgylchedd, gan aros yn effeithiol ac yn bositif. Rydych chi'n addasu eich arddull bersonol ar gyfer gwahanol bobl neu sefyllfaoedd, i gyflawni ar y cyd nodau neu bwrpas a rennir. Rydych chi'n gwneud defnydd cadarnhaol o newid ac ansicrwydd i hyrwyddo ac annog cydweithio a rhannu ar draws adrannau, gwasanaethau a chyda phartneriaid wrth weithio'n rhanbarthol.

**Cwsmeriaid yn Gyntaf:**

**Canolbwyntio ar Gwsmeriaid** - Rydych yn mynd ati i chwilio am farn amrywiol unigolion sy'n derbyn ein gwasanaethau, i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rydych chi'n cynllunio anghenion gwasanaeth ymlaen llaw, gan ystyried y ffactorau ehangach ac effaith hirdymor penderfyniadau. Rydych chi'n datblygu, yn cyflawni ac yn gwerthuso cynlluniau strategol, gan gydbwyso pwysau tymor byr â nodau tymor hir, yn unol â gweledigaeth y Cyngor, sy'n mynd i'r afael ag anghenion gwasanaeth amrywiol, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Uniondeb:**

**Arwain a Dirprwyo** - Rydych chi'n dilyn prosesau, a chanllawiau, gan herio mewn ffordd gadarnhaol os bydd materion yn codi. Rydych chi'n blaenoriaethu eich gwaith eich hun a gwaith eraill yn deg, ar sail cryfderau pobl, ac yn darparu adborth clir ac amserol. Rydych chi'n pennu ac yn cynnal cyfeiriad clir a chadarnhaol, gyda blaenoriaethau a chanlyniadau â ffocws amlwg sy'n cael eu cyfleu'n glir i'r timau.

**Rhagori:**

**Dadansoddi** - Rydych chi'n ymdrin â phroblemau'n gadarnhaol ac yn canfod ffyrdd o nodi atebion addas. Rydych chi'n ymchwilio ac yn dadansoddi gwybodaeth a data rhifiadol ac ysgrifenedig o ystod o ffynonellau er mwyn llywio penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth. Rydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth neu ddealltwriaeth o broblem, gan gydnabod sut y gallai un mater fod yn rhan o system fwy a dod i gasgliadau rhesymegol.

**Cymryd Cyfrifoldeb:**

**Arddangos Cyfrifoldeb** - Rydych yn dal eich hun yn atebol am yr hyn rydych wedi addo ei gyflawni, gan gynnwys tasgau a ddirprwywyd i eraill. Rydych yn defnyddio eich crebwyll ac yn dangos ymagwedd ystyriol tuag at sefyllfaoedd a thasgau wrth wneud penderfyniadau a/neu ddarparu cyngor. Rydych yn dyrannu adnoddau yn deg ac yn gwneud penderfyniadau strategol priodol i gefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaethau.

**Gwrando:**

**Gwrando ar eraill** - Rydych yn dangos brwdfrydedd dros y gwasanaeth rydych yn ei ddarparu a gwella eich gwaith. Rydych yn sefydlu ac yn cynnal ffyrdd o gynnwys ystod amrywiol o gydweithwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid wrth ddatblygu gwelliannau. Rydych yn arwain ar draws ffiniau, gan ystyried gwasanaeth cyhoeddus fel un gymuned a chynnwys cymunedau a sefydliadau partner wrth wneud penderfyniadau.

**Gwybodaeth**

Dealltwriaeth glir o agenda'r Llywodraeth ar gyfer Llywodraeth Leol, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

Dangos gwybodaeth bendant am bolisi, strategaeth a darpariaeth sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, cynllunio, gorfodi a newid yn yr hinsawdd ac arwain timau i gyflwyno rhaglenni a mentrau gyda dawn i weithio mewn partneriaeth.

**Sgiliau Penodol y Swydd**

Rheoli materion sensitif a gwleidyddol yn hyderus gan weithio'n ddiplomataidd i gyflawni canlyniadau positif ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Y gallu i ennyn ymddiriedaeth, didwylledd, a chydraddoldeb drwy ryngweithio â phobl o amrywiol gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, ac addysgol.

Arddangos sgiliau rhyngbersonol gwych sy'n eich galluogi i feithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid/partneriaid perthnasol, gan gynnwys Undebau Llafur.

**Profiad**

Profiad llwyddiannus o reolaeth strategol mewn sefydliad mawr.

Profiad o ran datblygu a gweithredu strategaethau gwasanaeth sy'n darparu gwelliannau amlwg.

Profiad o gyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy ddefnyddio a hyrwyddo TGCh.

Tystiolaeth o arwain newid sylweddol mewn trefniadaeth a gwasanaethau a rheoli'n llwyddiannus y goblygiadau o ran rheoli pobl.

## Meini Prawf Dymunol

## SGILIAU IAITH A CHYFATHREBU

Er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, dyma'r lefelau iaith sydd eu hangen. Gallwn ddarparu cefnogaeth resymol i'ch helpu i gyflawni'r lefel hon.

**Ansicr ynghylch eich lefel?** Gwirio fy lefel iaith

| | | |
|---|---|---|
| Cymraeg | **Sgiliau Siarad Lefel 3** | **Sgiliau Ysgrifennu Lefel 3** |
| Saesneg | **Sgiliau Siarad Lefel 5** | **Sgiliau Ysgrifennu Lefel 5** |

| | | |
|---|---|---|
| Arall | | |

| GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD |
|---|
| Mae angen gwiriadau DBS ar gyfer rhai swyddi, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys gweithio gyda phlant a/neu oedolion sydd mewn perygl o niwed neu gamfanteisio (Canllawiau). Ar gyfer y swydd hon mae angen: |
| **Math o ddatgeliad -** Nid oes angen gwiriad DBS<br>**Y math o weithlu -** Ddim yn berthnasol<br>**Adnewyddu -** Dim angen adnewyddu<br>**Y Rheswm -** Ddim yn berthnasol |

| UNRHYW WYBODAETH ARALL |
|---|
| Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau y tu allan i oriau ar y 'Rota Aur' fel arweinydd strategol ar gyfer sefyllfaoedd brys, lle bo angen. |
| *Disgwylir i bob gweithiwr gynnal gwerthoedd craidd yr Awdurdod, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein Fframwaith Ymddygiad a Gwerthoedd Craidd, a chynnal egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod neu, os ydynt yn gweithio mewn ysgol, Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol, fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd yn y sefydliad.* |

| | |
|---|---|
| Adran \| **Department** | Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd \| Place, Infrastructure & Economic Development |

| | |
|---|---|
| Is-adran \| **Division** | Lle a Chynaliadwyedd |
| Rhan \| **Section** | Ddim yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| Paratowyd gan \| **Prepared By** | Ainsley Williams |
| Dyddiad \| **Date** | Mawrth / March, 2026 |

| **Main Purpose of Job** |
| --- |
| • To support and advise the Corporate Management Team and Elected Members in the overall strategic management of the Council.<br><br>• To support the delivery of Sustainable Development in Carmarthenshire, providing advice and assistance to Elected Members and working corporately with colleagues to deliver the Council's regeneration priorities.<br><br>• To support the delivery of the Carmarthenshire Economic Recovery & Delivery Plan (April 2021), ensuring efficient processing of planning applications that support jobs and economic development, increased housing supply and town centre recovery.<br><br>• To lead on the Council's approach to promoting environmental sustainability in line with the wider Council's Well Being of Future Generation responsibilities,<br><br>• To support the delivery of the Council's Corporate Strategy, including the Council's Well-being Objectives and ensuring the steps taken are in accordance with the sustainable development principle of the Well-being of Future Generations Act – improving the economic, social, environmental and cultural well-being of Carmarthenshire.<br><br>• To ensure a culture of performance management, continuous service improvement, evaluation and performance review, and that resources are used economically, efficiently and effectively.<br><br>• To contribute to the Environment Departmental Management Team (DMT) by taking the lead on issues allocated as part of the post's corporate portfolio.<br><br>• To lead, manage, develop and implement relevant strategies that will deliver a comprehensive, effective and focused Sustainable Communities Service in accordance with the Council's aims and objectives. |

| **Key responsibilities** |
|---|
| 1. Provide clear and visible leadership and strategic direction that inspires team working and secures high levels of performance and commitment amongst managers and employees to deliver exceptional services.<br><br>2. Be the principal advisor to the Chief Executive, Director of Place, Infrastructure & Economic Development and the Executive Board on the key issues and strategies relevant to the various service portfolios of the directorate, securing both corporate and political support that will ensure the best possible outcomes for service users.<br><br>3. To support the Head of Economic Development & Property in engaging with prospective developers and investors in a proactive manner - promoting, encouraging and facilitating development opportunities throughout the County.<br><br>4. Work with colleagues, external stakeholders and partners to ensure that carbon reduction and further sustainability objectives are embedded within Council services and support partner and the Council's Net Zero Carbon objective and economic recovery proposals.<br><br>5. To be responsible for the development, implementation and review of policies and delivery frameworks/action plans on energy management and land use, to meet the carbon neutral aspirations of the Council and sustainable development.<br><br>6. Develop a culture of partnership working with other public bodies including Corporate Joint Committee (CJC) partners, as well as those in the private and voluntary sectors to ensure that all opportunities are maximised to the best advantage of the Council and the residents of Carmarthenshire and the region.<br><br>7. Promote and foster an organisational culture in which constructive challenge, innovation and creative solutions are the norm, promoting the Council's reputation as a top performing local authority and good employer.<br><br>8. Lead on options appraisals, feasibility development and project implementation including procuring contractors and consultants, managing project teams, achieving all necessary approvals, risk management, financial business planning, communication, and engagement. To have overall responsibility for leading, setting, monitoring, and controlling the budgets and resources for the relevant service elements of the Directorate.<br><br>9. To ensure the work of the Division complies with all statutory duties specific to the service and other wider corporate duties on the Council and ensure that officers are suitably qualified and competent in relevant areas and support continuous development to work towards a resilient and sustainable service.<br><br>10. To be responsible for the strategic and operational management of the Council's statutory planning functions as the Local Planning Authority, including the regional strategic development plan, local development plan, minerals, development control, conservation, biodiversity, natural environment obligations/considerations and building control.<br><br>11. To be responsible for the development, maintenance and review of the Council's Local Development Plan (LDP) which will ensure the integration of all the Council's land using |

planning, transport planning, economic development, health improvement and social and community policies within a sustainable development framework.

12. To support the Council's policy making across the corporate spectrum and specifically on all planning, licensing and enforcement matters and to ensure that these are translated, where applicable, into plans, programmes and services which accord with the principles of sustainable development, future generations and well-being.

13. To be responsible for the strategic and operational management of the Council's statutory and discretionary flood management/mitigation and strategic response as Lead Local Flood Authority (LLFA), including flood risk strategies, plans and assessments, management of reservoirs, coastal erosion and sustainable drainage management regulation, approval and advice services.

| |
|---|
| **Responsible for staff / equipment** |
| The division will employ approximately 120 members of staff with a net budget of approximately £8m. |
| **Reporting to** |
| Director of Place, Infrastructure and Economic Development. |

## Essential Criteria

### Qualifications, Vocational Training and Professional Memberships

Educated to degree level (or equivalent) in a relevant professional discipline such as planning, environmental management, sustainability, regeneration, geography or public policy.

A relevant management qualification or demonstrable evidence of continuing professional development and or experience of senior management.

### Our Core Values and Behaviours

Click here for the full framework

**One Team:**

**Adapting to Change** - You can adapt to changes in work or environment, remaining effective and positive. You adapt your personal style to suit different people or situations, to collectively deliver shared goals or purpose. You make positive use of change and uncertainty to promote and encourage collaboration and sharing across departments, services and with partners in regional working.

**Customers First:**

**Customer Focus -** You actively seek the diverse views of individuals who use our services, to improve our service delivery through Welsh and English. You plan ahead for service needs, considering the wider factors and long-term effects of decisions. You develop, deliver and evaluate strategic plans, balancing short term pressure with long term goals, aligned to the Council's vision, which address diverse service needs including Welsh language and culture.

**Integrity:**

**Leading & Delegating -** You follow processes, and guidelines, challenging in a positive way if issues arise. You prioritise your own and others' work fairly, based on people's strengths, and providing clear, timely feedback. You set and maintain a clear, positive direction, with highly focused priorities and outcomes which are clearly communicated to teams.

**Excellence:**

**Analysing -** You take a positive approach to deal with problems and find ways to identify suitable solutions. You research and analyse numerical and written information and data from a range of sources to inform evidence-based decisions. You probe for further information or understanding of a problem, recognising how one issue may be part of a larger system and making rational conclusions.

**Take Responsibility:**

**Demonstrates Responsibility -** You hold yourself accountable for what you have promised to deliver, including tasks delegated to others. You use your judgement and take a considered approach to situations and tasks when making decisions and/or providing advice. You fairly allocate resources and make appropriate strategic decisions to support delivery of services.

**Listening:**

**Listening To Others -** You show enthusiasm for the service you deliver and to improving your work. You establish and maintain ways to involve a diverse range of colleagues, stakeholders and partners in developing improvements. You lead across boundaries, viewing public service as one community, bringing communities and partner organisations into decision making.

**Knowledge**

A clear understanding of the Government's agenda for Local Government at both UK and Wales levels.

Demonstrate a proven knowledge of policy, strategy and delivery relating to sustainable development, planning, enforcement and climate change and leading teams to deliver programmes and initiatives with a flair for partnership working.

**Job Specific Skills**

To confidently manage sensitive and political issues with effective use of diplomacy to achieve positive outcomes for service users.

Able to create an environment of trust, openness and equality by interacting with people of various social, cultural, economic and educational backgrounds.

Demonstrate excellent interpersonal skills that enable positive relationships with relevant stakeholders/partners, including Trade Unions.

**Experience**

A proven track record of successful strategic management within a large organisation.

Experience in developing and implementing service strategies that deliver demonstrable improvements.

Experience of delivering significant efficiencies through the use and promotion of ICT.

Evidence of leading significant organisational and service change together with successfully managing the People Management implications.

## Desirable Criteria

## LANGUAGE AND COMMUNICATION SKILLS

To meet the needs of the people who access our services, these are the language levels required. We can provide reasonable support to help you achieve this level.

**Unsure what level you are?** Check my language level

| | | |
|---|---|---|
| Welsh | **Spoken Level 3** | **Written level 3** |
| English | **Spoken Level 5** | **Written level 5** |
| Other | | |

## DISCLOSURE AND BARRING SERVICES (DBS) CHECKS

DBS checks are required for some jobs, especially those that involve working with children and/or adults at risk of harm or exploitation (Guidance) For this job, we ask for:

**Type of disclosure -** No DBS check required

**Workforce type -** Not Applicable

**Renewals -** No renewal required

**Justification -** Not Applicable

## ANY OTHER INFORMATION

The post holder will be expected to undertake out of hours cover duties on the 'Gold Rota' as a strategic lead for emergency situations, where required.

*Every employee is expected to uphold the authority's core values reflected within Our Core Values and Behaviours Framework and maintain the principles of the authority's Equality and Diversity Policy or, if employed within a school, the school's Equality and Diversity Policy, as appropriate to the accountabilities and seniority of the post within the organisation.*